# DOLEN

YSGOL BRO TEIFI

**Rhifyn 18 - 30 ain o Fehefin 2026**

*Annwyl Rieni, Gofalwyr a Chyfeillion,*

Croeso i rifyn diweddaraf cylchgrawn Dolen. Gyda ninnau'n brysur agosau at ddiwedd y flwyddyn academaidd, mae hyn yn gyfle i adrodd ar ddigwyddiadau a llwyddiannau'r wythnosau diwethaf yn yr ysgol.

Yn y rhifyn hwn gewch glywed am hanes ein diwrnod mabolgampau i ddisgyblion oed cynradd, gweithgareddau'r clwb amaeth, ymweliad Mr Phormula i'r ysgol ac hefyd cewch gyfle i gwrdd â'n Prif Swyddogion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Yn ystod yr hanner tymor hwn, rydym yn dathlu degawd ers sefydlu Ysgol Bro Teifi gyda nifer o weithgareddau wedi eu trefnu. Penllanw hyn fydd ein Ffair Haf gyntaf erioed ar ddydd Llun y 13eg o Orffennaf. Yn ystod y ffair bydd dau ddarn cerddorol newydd a gomisyniywyd gan yr ysgol yn cael eu clywed yn gyhoeddus am y tro cyntaf. Bydd yna hefyd weithgareddau, stondinau a lluniaeth ar gael felly dewch yn llu!

Bydd cyfle eto yn rhifyn olaf y flwyddyn i mi adrodd ar yr holl weithgareddau sy'n weddill am y tymor hwn felly darllennwch ymlaen i ddysgu mwy am yr hyn sydd eisoes wedi bod ar waith,

Diolch o galon

*Gareth Evans*

Pennaeth

oni heuir ni fedir,

Dathlu'r Degawd

# Prif Swyddogion 2026-27

Dyma gyflwyno ein Prif Swyddogion a'n Dirprwy Brif Swyddogion ar gyfer 2026/2027. Llongyfarchiadau gwresog iddyn nhw gyd!









# Ffocws ar Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



## SGWAD CREADIGOL

Cafodd Gwenlli Thomas, Marged Dafis, Elliw Jones a Celyn Davies o flwyddyn 8 brynhawn buddiol gyda Rhiannon Wyn Salisbury. Buon nhw'n cynllunio llyfr i ddisgyblion oed cynradd, a hynny fel rhan o'r Sgwad Creadigol.

## YSGRIFENNU CREADIGOL

Llongyfarchiadau i'r ddwy yma ar eu llwyddiant gyda'u hysgrifennu creadigol yn Eisteddfod Llandudoch.

Einir George - 1af: Darn o farddoniaeth (11 oed a than 16 oed)

Esyllt Jones - 1af: Darn o ryddiaith (11 oed a than 16 oed)



## LLONGYFARCHIADAU!



Llongyfarchiadau mawr i'n hathrawes Wyddoniaeth, Mrs Tina Lewis, ar ennill gwobr 'Nothing's Impossible Award' yng Ngwobrau Pencampwyr Athrawon 2026 Prifysgol Caerfaddon!

Mae'r gwobrau cenedlaethol hyn yn dathlu athrawon eithriadol mewn ysgolion ledled y DU. Bob blwyddyn, mae myfyrwyr israddedig Prifysgol Caerfaddon yn enwebu rhywun a wnaeth chwarae rhan allweddol yn eu helpu i gyrraedd y brifysgol. Mae'r enwebiadau'n tynnu sylw at effaith anhygoel athrawon ymroddedig ar hyder, uchelgeisiau a llwyddiant disgyblion. Rydym yn falch iawn o'r gwaith ddiflino rydych yn ei wneud i gefnogi ein disgyblion, Mrs Lewis. Da iawn!



# TGAU Amaeth



## FFENSIO

Bu’r disgyblion yn paratoi’r ardal tu cefn i’n caeau chwaraeon, cyn mynd ati i’w ffensio. Diolch i Mr Bleddyn Jones a’i dad Mr Derek Jones am ddod i gynorthwyo’r disgyblion.







## CLWB AMAETH

Diolch i Mr John Davies, sy’n aelod o Fwrdd Gwlân ‘British Wool’, am ddod i siarad â’n disgyblion. Cafwyd anerchiad diddorol ganddo am rinweddau gwlân a'r cyfleoedd sydd i gael drwy'r Bwrdd Gwlân.



# Ffocws ar y Celfyddydau Mynegiannol

## EISTEDDFOD Y GARREG LAS

Cafodd ein disgyblion o flynyddoedd 5 a 6 y cyfle i fod yn rhan o gân Groeso'r Eisteddfod Genedlaethol a fydd yn cael ei chynnal yn Llantwd ym mis Awst.




## MR PHORMULA

Croesawyd y bîtbocsiwr Ed Holden, neu Mr Phormula, atom i gynnal gweithdy gyda disgyblion Blwyddyn 7. Roedd pawb wrth eu boddau yn clywed synnau amrywiol, yn gwneud gwaith byrfyfyr ac yna'n cyfansoddi rap i Ddathlu Degawd Ysgol Bro Teifi.





## GWASANAETH GERDD CEREDIGION

Bu Gwasanaeth Cerdd Ceredigion gyda ni'n perfformio fel rhan o'u taith blynyddol. Cafwyd tri perfformiad cyffrous iawn a chyfle i bawb ddod i adnabod offerynnau'r Gerddorfa.



# Gyrfaoedd



## PRENTISIAETHAU

Cafodd griw o ddisgyblion blwyddyn 12 gyflwyniad gan Sally Bennett o Gyngor Sir Gaerfyrddin i ddysgu mwy am yr amryw o brentisiaethau sydd ar gael.

## LLETYGARWCH

Mynychodd ein disgyblion TGAU Lletygarwch weithdy ymarferol ar ddiogelwch bwyd a HACCP yng Nghanolfan Fwyd Cymru.

Dan arweiniad eu huwch dechnolegwr bwyd Gina, a'u technolegydd bwyd cynorthwyol Phoebe, cyflwynodd y sesiwn hanfodion diogelwch bwyd i'n disgyblion, gan gynnwys arferion diogelwch bwyd sylfaenol, alergenau a sut mae HACCP yn cael ei ddefnyddio i nodi a rheoli peryglon posibl wrth gynhyrchu bwyd 🥼⚠️

Cynhaliwyd yr ymweliad yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwyddor a Thechnoleg Bwyd 2026. Dan arweiniad Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd, mae'r wythnos yn dathlu arloesedd, talent ac effaith sector bwyd y DU ac yn anelu at ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i archwilio gyrfaoedd mewn bwyd. O rolau technegol ac ansawdd i ddatblygu cynnyrch, mae yna lawer o lwybrau i'r diwydiant ac roedd hi'n wych i'n disgyblion gael y cyfle i ddysgu mwy am yrfaoedd yn y maes hwn.





## PEIRIANNEG

Daeth Sonia Rees o gwmni Qinetiq i siarad â chriw o ddisgyblion o flynyddoedd 10 a 12 am gyfleoedd gyrfaol ym maes peirianneg.

# Mabolgampau Oed Cynradd!



Pencampwyr Derbyn



Pencampwyr Blwyddyn 1



Pencampwyr Blwyddyn 2

Cynhaliwyd diwrnod o fabolgampau i’r disgyblion oed cynradd, gyda phawb yn mwynhau. Da iawn i bawb am roi o’u gorau, a llongyfarchiadau i bencampwyr y mabolgampau:

Derbyn – Guto Jones, Moli James a Hari Davies

Blwyddyn 1 – Alaw Davies a Seb Harris-Davies

Blwyddyn 2 –Hedd Jones a Penelope Bluett-Wigley

Blwyddyn 3 – Wil Davies a Martha Jones

Blwyddyn 4 – Kai George a Megan Pugh

Blwyddyn 5 – Dion Williams, Lena Davies, Erin Jones a Sophie Powell

Blwyddyn 6 – Oli Davies a Mia Monk



Pencampwyr Blwyddyn 3



Pencampwyr Blwyddyn 4



Pencampwyr Blwyddyn 5



Pencampwyr Blwyddyn 6

# TWRNAMEINTIAU PÊL-DROED YN EIN CYMUNED



Mae nifer o dîmau o'r ysgol wedi bod yn cystadlu mewn twrnameintiau pêl-droed yn y gymuned. Bu 4 tîm o flwyddyn 6 yn chwarae yn Saron, gyda Merched B a Bechgyn B yn colli yn y rownd gyn-derfynol. Gwnaeth Merched A ddod yn ail yn y twrnamaint a Bechgyn B yn ennill y noson. Cafwyd sawl gêm gyffrous ac agos iawn.



Aeth tri tîm o flwyddyn 3 i Lanfihangel-ar-Arth gyda phawb yn rhoi o'u gorau glas drwy gydol y noson. Llongyfarchiadau mawr i Dîm 2 Bro Teifi am gipio'r fuddugoliaeth.



Aeth pedwar tîm arall i Lanfihangel-ar-Arth hefyd, o flwyddyn 5. Roedd y pedwar tîm yn chwarae'n arbennig o dda ac yn rhoi o'u gorau glas drwy gydol y noson. Llongyfarchiadau mawr i Dîm 2 Bro Teifi am gipio'r fuddugoliaeth.












Teifi Law Ltd






Teifi Law Ltd



# Athletau

Dyma'r criw o ddisgyblion a gynrychiolodd yr  ysgol yng nghystadleuaeth tîm athletau NASUWT Ceredigion. Uchafbwynt y dydd oedd gweld ein tîm merched iau, yn dod yn ail ac felly'n hawlio lle yn rownd Dyfed.




# Hoci



Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Mills ar gael ei dewis i garfan hoci De Orllewin Cymru!

# Llwyddiannau Eraill




Llongyfarchiadau i Cari Jones o flwyddyn 12 ar gael ei dewis i gludo'r baton ar gyfer Gemau'r Gymanwlad.

Llongyfarchiadau i Harry o Flwyddyn 8 ar ei ymddangosiad ar raglen "Love Your Weekend with Alan Titchmarsh" ar ITV fel rhan o dim Cymru a fynychodd y "Mounted Games."





Llongyfarchiadau mawr i Katie Thomas o flwyddyn 6 am gael ei dewis fel un o ugain a gafodd eu gwobrwyo gan y Sgowtiaid yn ddiweddar yn 'The Chief Scout's Unsung Heroes Awards'
Cafodd ei dewis allan o gannoedd o enwebiadau, ac hynny am ei dewrder


# HER DDARLLEN GWOBRAU TIR NA N-OG AWARDS 2026


1976–2026 DATHLU 50 CELEBRATING 50

## Ymuna â'r Her!

I ddathlu 50 mlynedd anhygoel o lyfrau plant, rydyn ni'n dy wahodd ar antur ddarllen i'w chofio! Darllena lyfrau gwych, darganfydda gymeriadau bythgofiadwy, a gad i dy ddychymyg grwydro.


Dechreua ar Her Ddarllen Tir na n-Og heddiw!





Ar ôl cwblhau pob her, lliwia'r sgwâr.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darllen llyfr am ddathliad | Darllen llyfr sy'n gwneud i ti chwerthin | Darllen llyfr sydd â chlawr coch | Creu 'den' darllen | Darllen llyfr sy'n odli | Darllen llyfr am archarwr | Darllen wrth neidio i fyny ac i lawr | Darllen llyfr am gymeriad sydd ar y teledu | Darllen llyfr sydd wedi ennill Gwobr Tir na n-Og | Darllen dy hoff lyfr |
| Darllen llyfr brawychus | Darllen llyfr llawn ffeithiau | Darllen llyfr am anifail | Darllen cylchgrawn neu gomig | Darllen yng ngolau tortsh | Darllen yn dy byjamas | Darllen mewn caffi | Darllen yn yr awyr agored | Darllen llyfr am deimladau | Darllen wrth fynd ar daith |
| Darllen mewn lle anarferol | | | Creu llun o dy hoff gymeriad | Creu clawr newydd i lyfr | Tynnu llun ohonot ti dy hun yn darllen | Defnyddio Lego neu ddeunydd ailgylchu i adeiladu golygfa o lyfr | Creu llyfrnod | | |
| | | | Gwrando ar lyfr llafar | Darllen gyda ffrind neu aelod o'r teulu | Darllen gyda dy hoff degan / anifail anwes | HER WAG! Meddwl am dy her dy hun! | | | |





Noddwyd gan Wasg Gomer

# HER DDARLLEN GWOBRAU TIR NA N-OG AWARDS 2026


1976–2026
DATHLU 50
CELEBRATING 50


POBL IFANC

## Ymuna â'r Her!

I ddathlu 50 mlynedd anhygoel o lyfrau plant, rydyn ni'n dy wahodd ar antur ddarllen i'w chofio! Darllena lyfrau gwych, darganfydda gymeriadau bythgofiadwy, a gad i dy ddychymyg grwydro.


Dechreua ar Her Ddarllen Tir na n-Og heddiw!





Ar ôl cwblhau her, ticia'r sgwâr.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darllen llyfr sydd â theitl ag un gair | Darllen llyfr a gyhoeddwyd yn y flwyddyn gest ti dy eni | Darllen llyfr gyda chlawr o dy hoff liw | Darllen llyfr ffeithiol | Darllen llyfr yn yr awyr agored | Darllen bywgraffiad rhywun sydd o ddiddordeb i ti | Darllen gyda ffrind / teulu | Creu gofod neu le cyfforddus i ti ddarllen ynddo | Ymweld â'r llyfrgell / siop lyfrau leol | Darllen am un o dy ddiddordebau |
| Darllen llyfr sydd wedi ei addasu'n ffilm neu'n gyfres deledu | Darllen llyfr sydd wedi ennill Gwobr Tir na n-Og | Darllen llyfr am ddigwyddiad hanesyddol | Darllen llyfr rwyt ti'n meddwl fydd yn dysgu rhywbeth newydd i ti | Darllen am 10 munud bob dydd am wythnos | Darllen cyfrol o gerddi | Trafod llyfr rwyt ti wedi ei fwynhau gyda ffrind neu aelod o'r teulu | Creu rhestr chwarae o gerddoriaeth i dy helpu di i ymlacio wrth ddarllen | Darllen cyn cysgu gyda diod o'th ddewis | Tynnu hunlun ohonot ti'n darllen |
| Darllen llyfr wedi ei argymell gan ffrind | | | Darllen llyfr wedi ei ysbrydoli gan chwedlau | Darllen erthygl ddiddorol mewn papur newydd neu gylchgrawn | Ailddarllen dy hoff lyfr pan oeddet ti'n blentyn | Darllen geiriau dy hoff gân | Darllen stori ddirgel | | |
| | | | Gwrando ar bodlediad am ddarllen | Gwrando ar lyfr llafar neu e-lyfr | Darllen llyfr gan awdur o Gymru | HER WAG! Meddwl am dy her dy hun! | | | |





Noddwyd gan Wasg Gomer

GOMER


# HER DDARLLEN GWOBRAU TIR NA N-OG AWARDS 2026

1976–2026
DATHLU 50
CELEBRATING 50

## Ymunwch â'r Her!

I ddathlu 50 mlynedd anhygoel o lyfrau plant, rydym yn eich gwahodd ar antur ddarllen i'w chofio. Darllenwch lyfrau gwych, darganfyddwch gymeriadau bythgofiadwy, a gadewch i'ch dychymyg grwydro.

Dechreuwch ar Her Ddarllen Tir na n-Og heddiw!



Ar ôl cwblhau her, ticiwch y sgwâr.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darllen llyfr sydd wedi ennill gwobr | Gwrando ar bodlediad am ddarllen | Darllen llyfr ar wyliau | Darllen mewn caffi | Darllen llyfr sydd â rhif yn y teitl | Darllen llyfr ffeithiol a darganfod pum ffaith newydd | Trafod llyfr gyda ffrind / aelod o'r teulu | Creu amser i ddarllen | Tynnu hunlun ohonoch chi'n darllen | Ailddarllen eich hoff lyfr pan oeddech chi'n blentyn |
| Darllen llyfr sydd â chlawr lliwgar | Darllen llyfr Nadoligaidd | Darllen llyfr sydd wedi ei addasu'n ffilm neu'n gyfres deledu | Darllen llyfr sy'n llesol i chi | Darllen llyfr sydd â chlawr mewn dau liw yn unig | Darllen cyfrol o gerddi | Darllen llyfr yn yr awyr agored | Mynd i'r llyfrgell | Pawb yn y tŷ neu griw o ffrindiau i ddarllen yr un llyfr | Gwrando ar lyfr |
| Darllen stori yn uchel – does neb yn rhy hen i glywed stori dda! | | | Darllen bywgraffiad rhywun sydd o ddiddordeb i chi | Darllen nofel ddirgelwch | Darllen llyfr a gyhoeddwyd yn y flwyddyn y cawsoch chi eich geni | Darllen llyfr mewn diwrnod (Awê/AFK) | Darllen cylchgrawn | | |
| | | | Galw yn eich siop lyfrau leol | Rhannu hoff lyfr ar y cyfryngau cymdeithasol | Mynd â llyfr i bob man – rhag ofn bod cyfle i ddarllen | **HER WAG!** Meddwl am eich her eich hun! | | | |



Noddwyd gan WPG

oni heuir ni fedir
YSGOL BRO TEIFI

# Ffair Haf

oni heuir ni fedir

## Dathlu'r Degawd

# Summer Fair

**Dewch i ddathlu diwedd 10fed Blwyddyn Ysgol Bro Teifi**
**Come and celebrate the end of Ysgol Bro Teifi's 10th Year**

## Llwyfan Adloniant
Entertainment Stage

## Lluniaeth
Refreshments

## Stondinau
Stands

## Gemau
Games

## Raffl Fawr
Grand Raffle

## Ocsiwn Tawel
Silent Auction

**Dydd Llun / Monday 13/07/2026**
**16:00 - 18:00**